YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 10.] HYDREF, 1921. [PRIS 3c.

CYNHWYSIAD.

AR ADEN FFYDD.

CRIST A'R CREDOAU.

RHAI O ORIAU YR HEN FYRDDIN.

JENKIN LLOYD JONES (1843—1918).

REBECCA JONES (1796—1862).

PRIODASAU.

MARWGOFION.

MANION AC HANESION.

Llandyssul:

Argrafwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s. 6c. y flwyddyn. Dantonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a goheb iaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

GWEITHIAU DR. TUDOR JONES

An Interpretation of Rudolf Eucken's Philosophy.
Price - - 5s.

The Spiritual Ascent of Man.
Price - - 2s. 6d.

The Training of the Mind and Will.
Price - - 2s. 6d.

The Making of Personality.
Price - - 2s. 6d.

What Philosophy is.
Price - - 2s. 6d.

Yr oll i'w cael o—

SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers - - -
& Provender Millers, - -
Merchants, - - - -
Wholesale Grocers, &c. &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1921. [CYF. XXI. RHIF 10.

AR ADEN FFYDD.

DIOLCH AM Y CYNHAUAF. 8.7. D.

DIOLCH iti, Dad trugarog,
Am dy wenau ar ein gwlad ;
Am gynhauaf llawn toreithiog,
Teilwng ydwyt o fawrhad :
Haul a gwlaw a gwlith bendithiol,
Ac awelon mwyn eu dawn,
Roddaist o dy law gynhaliol,
I addfedu'r egin grawn.

Diolch am dy wenau hyfryd,
Nefol wleddoedd, dwyfol ryw ;
Porthaist ni a bara'r bywyd,
Llonaist ni ag afon Duw !
Taenaist drosom fraich d'amddiffyn,
Cedwaist rhagom newyn llym ;
Tystia'n profiad drwy y flwyddyn
Na fu arnom eisieu dim.

Mawl a bri rown iti, Arglwydd,
Ar bereiddiaf dyner dant,
'Rhwn sy'n gwisgo blodeu'r maesydd
A ofalodd am ei blant ;
Derbyn heddyw ein anrhegion,
Am dy roddion hael di-ri,
Blaenffrwyth bywyd pur, o eigion
Calon lawen rown i Ti.

T. J. PRITCHARD (*Glan Dyfi*).

CRIST A'R CREDOAU.

"BETH a dybygwch chwi am Grist?" yw'r cwestiwn a ofynnodd yr Iesu i'r Phariseaid a geisient ei rwydo yn ei ymadrodd. Dyna gwestiwn a ofynnir heddyw gan Gristionogion, a chwestiwn diddorol a phwysig ydyw.

Ychydig wythnosau yn ol, cynhaliwyd Cynhadledd yng Nghaergrawnt, gan adran ryddfrydig aelodau Eglwys Loegr, i ymdrin a'r pwnc "Iesu a'r Credoau." Cyhoeddwyd rhannau o'r anerchiadau draddodwyd yno yn y papyrau dyddiol, a bu peth cynnwrf o'r herwydd mewn llawer gwersyll. Erbyn hyn, ceir yr anerchiadau yn llawn yn y "*Modern Churchman*" am fis Medi, a diddorol iawn ydynt i ni. Amlwg ddigon ydyw bod yr adran hon o aelodau'r Eglwys Sefydledig yn brysio'n gyflym at y safbwynt Undodaidd.

Nid ymgais i amddiffyn a chyfiawnhau credoau'r Eglwys wnaed yng Nghaergrawnt, ond beirniadaeth fanwl arnynt, yn dangos eu diffygion ac yn olrhain eu tarddiad.

Un o'r anerchiadau mwyaf ysgolheigaidd a thrwyadl yw eiddo'r Canon Glazebrook, ac ni chaniata gofod i ni yn y rhifyn hwn ond sylwi ar ei osodiadau ef yn unig. Efallai y cawn air ar yr areithiau eraill rywbryd eto.

Addefa'r Canon fod cryn anesmwythder ymysg Eglwyswyr am Grist, ac nid yw hyn yn syndod. Mae i bob cenhedlaeth ei ffordd ei hun o edrych ar bethau, a dibynna athroniaeth pob oes ar wybodaeth a phrofiad yr oes honno. Mae hyd yn oed iaith yn cyfnewid yn nhreigliad y canrifoedd, ond newidia meddwl lawer mwy. Afresymol fyddai disgwyl i syniadau boreol y cyfnod Cristionogol fodloni gofynion meddylwyr yr ugeinfed ganrif.

Ffurfiwyd credoau'r Eglwys—credo Athanasius, Nicea, ac yn y blaen, o dan ddylanwad syniadau sydd bellach wedi cilio i'r gorwel. Disgwyliai'r Iuddewon am Fessiah goruwch-ddynol i adfer y genedl o'i thrueni. Derbyniodd yr Apostol Paul syniad a ffynai ar y pryd, y bodolai'r Messiah yn ysbrydol gyda Duw cyn ymgnawdoli o hono yn yr Iesu. Ceir y syniad hwn yn llawer o Epistolau Paul.

Ym mhenawd gyntaf yr Efengyl yn ol Ioan cyfeirir at Grist fel "Y Gair" (*Logos* yw'r term gwreiddiol, a byddai'r "meddwl" yn well cyfieithiad arno) yn bodoli gyda Duw, ac yng nghyflawnder amser yn ymgnawdoli yn yr Iesu. Daeth y gair a'r syniad hwn o athroniaeth Groeg, ac yn enwedig oddiwrth Philo yn Alexandria. Felly daethpwyd i edrych ar Iesu fel yr ail berson yn y Duwdod, ac ynghwrs amser gosodwyd yr Ysbryd Glân fel y trydydd yn ei ymyl.

Un peth a bwysleisir gan y Canon yw, bod cynnwys y credoau a ennwyd i'w briodoli i athrawiaeth boblogaidd yr oes honno, yn hytrach nag i'r Ysgrythyrau. "Eofn yw'r dyn a hawlia i'r syniad am Grist geir yng Nghredo Nicea darddu o'r Testament Newydd." Mewn geiriau eraill, nid yw'r credoau yn hollol ysgrythyrol, ond wedi tarddu yn bennaf o athroniaeth Philo a Phlotinus. A chan mai o athroniaeth y canrifoedd cynnar y tarddodd y credoau, y mae hawl gan athronwyr y dydd presennol i'w barnu a'u cyfnewid i ateb gofynion meddwl yr ugeinfed ganrif.

Ymhellach, cred Mr. Glazebrook y byddai'r credoau wedi eu cyfnewid a'u gwella yn fuan onibae am y trychineb a oddiweddodd yr Ymerodraeth Rufeinig. Ymosododd y barbariaid arni, a pharlyswyd am dymor bob ymchwil athronyddol hyd oni chaledodd y credoau yn bethau sefydlog.

Ar ol hyn, honnai awdurdodau'r Eglwys bod y credoau yn cynnwys y ddedfryd derfynol ar bynciau'r ffydd, ac nas gellid eu cyfnewid; ond, o leiaf, er dyddiau y Diwygiad Protestanaidd, hawliodd athronwyr Iwrop ryddid i feddwl drostynt eu hunain ar bynciau mawr bywyd. Ceisiodd Descartes a Leibnitz, Kant a Hegel, dreiddio i egwyddorion sylfaenol pethau, a nod athroniaeth ar hyd yr oesau yw cyrraedd syniad am y bydysawd, am Dduw a dyn, sydd yn bodloni gofynion y meddwl, ac yn cysoni ac unoli anghysonderau ymddangosiadol meddwl a phrofiad. Athroniaeth achubodd ddiwinyddiaeth rhag bod yn rhywbeth marw hollol.

Ffurfiwyd y credoau gan ddynion gonest, awyddus i gael gafael ar y gwir, ac i'w draethu oreu medrent. Pob parch iddynt. Eu gwir olynwyr heddyw yw y meddylwyr eofn a brwdfrydig a geisiant ddwyn yr ymchwiliad ymhellach ar lwybr gwirionedd a goleuni, nid y rhai sydd yn fodlon byw ar syniadau yr hen oesau.

Un o bynciau dyrys y tadau Eglwysig oedd cymodi'r ddau wirionedd, bod yr Iesu ar yr un pryd yn ddynol ac yn ddwyfol.

Credai'r Groegiaid gynt bod llawer o'u gwroniaid hwy, a'r rhai gyflawnasant wasanaeth eithriadol i ddynolryw wedi ennill lle ymhlith y duwiau ar ol marw. Yn ddiau, yr oedd y syniad hwn yn gyfarwydd ddigon i'r Cristionogion bore; a chredai Paul o Samosata, yn y drydedd ganrif i Dduwdod Crist dyfu o'i ddynoliaeth drwy ei fuchedd ardderchog. Mae'n wir o hyd y gall dyn drwy ymdrech a dyhead ysbrydol wneud ei fywyd ar y ddaear yn ddwyfol.

Ar y llaw arall, credai'r Groegiaid hefyd bod y duwiau a'r duwiesau ar droion yn cymeryd arnynt ffurf ddynol, gan fyw ymhlith dynion ar y ddaear—megis yn ol llên gwerin y gwnaeth Athene, Apollo, ac eraill.

Mae'n ddiau i'r traddodiadau hyn liwio syniadau awdwyr credoau'r Eglwys Gristionogol.

Yn yr Eglwys foreu hefyd yr oedd sect a elwid y Docetiaid a ddalient mai ymddangosiadol yn unig oedd dynoliaeth Crist. Nid oedd ei gorff, meddent hwy, o gig a gwaed, ac felly ni pherthynai iddo ansoddau garw mater. Tybiai awdwyr y credoau mai syniad gwallus oedd hwn, a thrwy hynny gosodasant bwyslais ar *berffaith ddynoliaeth* yn ogystal ag ar *berffaith ddwyfoldeb* Crist.

Tarddai'r anhawsder ynghylch y cyfuniad o'r dynol a'r dwyfol yng Nghrist o'r dyb gyffredin, bod gagendor fawr a hollol rhwng Duw a dyn; ond gwelai rhai drwy'r camsyniad hwn, a dywedodd Justin Ferthyr, bod y "GAIR" a ymgnawdolodd yn yr Iesu yn bodoli *mewn rhith* ymhob dyn byw. Felly, yr oedd nid yn unig y Crist ond y ddynoliaeth hefyd yn ddwyfol.

Mae'n werth sylwi mai nid am *Dduwdod* Crist ond am ei *ddwyfoldeb* y sonid yn y Gynhadledd dan sylw.

Dywed Canon Glazebrook ein bod ar dir sicrach os awn yn ol at addysgiadau'r Iesu ei hun, gan adeiladu arnynt yn ofalus ac yn barchus, nag ydym wrth sylfaenu ein ffydd ar y credoau a liwiwyd yn ddiau gan syniadau athronyddol yr Iuddewon a'r Groegiaid.

Nis medrwn lai na synnu bod dynion yn derbyn *yn ffurfiol* gredoau a wrthodant *yn ymarferol*. Ond mater i'w cydwybodau hwy ac awdurdodau'r Eglwys yn bennaf yw hwn.

Mae Cynhadleddau fel hyn yn rhwym o ddylanwadu ar fywyd meddyliol yr Eglwys, a'n cred ni yw bod dyddiau'r credoau gorfodol wedi eu rhifo.

Rhaid i ni addef edmygedd o onestrwydd y siaradwyr yn taflu o'r neilltu yr hen arferiad o amddiffyn traddodiad ar draul y gwirionedd; mae argraff didwylledd ar eu gosodiadau.

Rhaid i'r hen gredoau gilio fel y gallo meddwl ac enaid dyfu. Erys crefydd er hynny yn burach a chryfach o dorri ei llyffetheiriau. Y pwnc mawr i ni heddyw yw, nid beth feddyliai awdwyr y credoau am Grist, ond beth yw'r gwirionedd am esiampl ac addysgiadau yr Iesu ei hun? I wybod hyn rhaid i ni fynd yn ol heibio credoau'r Eglwys, Plotenus, Philo a Phaul i lygad y ffynon, sef y dair Efengyl gyntaf. Mae athroniaeth yn ddisgyblaeth feddyliol o'r fath oreu, ond datguddiwr golud dwyfol y galon a'r enaid oedd Iesu Grist.

RHAI O ORIAU YR HEN FYRDDIN.

GAN MR. D. C. OWEN, AFONWEN.

Pan fu farw Myrddin Fardd colloddd Eifionydd y 'cymeriad enwoca,' a llên Cymru un o'i chymwynaswyr penna.' Ie, un mawr yn wir ydoedd Myrddin,—yr oedd yn ddigon mawr i fod yn feudwy, un nad ofnai ei gwmni ei hunan. Fel rheol, dyry sylwadau meudwy destun myfyrdod i bawb, ac am i Myrddin fyw wrtho ei hunan medrodd gario i ni ddefodau'r tadau, a llefaru yn groyw yn iaith ein teidiau, gan ddiogelu mewn cyfnod Saesonaidd ddigon, ac ar lannau glastwraidd môr y *visitors*, draddodiadau ein gorffennol.

'Doedd o fawr o grefyddwr, yn yr ystyr o fynd i'r capel, ei le o addoliad yn ddiau oedd ei aelwyd; eto, yr oedd mor onest ac uniawn yn ei ymwneud a dynion nes ei fod yn batrwn i grefyddwyr proffesedig. O ran ei gredo, tueddai i fod yn Undodwr, ac yr wyf bron tybio y tuedda Undodiaeth i fagu meudwyaeth. Aml i dro y dywedodd wrthyf, 'Dyna hen Undodwr mawr ydoedd Ambrose.' 'Tybed,' meddwn innau. ''Does dim tybed am dani: darllenwch awdl y Greadigaeth, a chewch y syniadau Undodaidd mwya' godidog; o ran hynny, gan yr Undodwyr mae meddylwyr mwyaf Ewrop heddyw, ac yng Nghymru mae YR YMOFYNYDD yn fwy meddylgar na chylchgronau cyffelyb yr enwadau.' Gofidiai ddirywiad cylchgronau a newyddiaduron ein cyfnod. 'Ond o ran hynny,' meddai, ''does yma ddim Golygyddion 'rwan, a fedrwch chwi ddim cael papur newydd heb olygydd.' Yr oedd gan Myrddin ei farn ei hun am bawb a phopeth, ac oherwydd annibyniaeth ei feddwl, bydd i'w sylwadau werth parhaol. Byddai ganddo bwyslais diangof ar eiriau digon cyffredin—un o'i eiriau arfer i bwysleisio mynegiad fyddai 'O ran hynny. Os yn son am feirdd, cyn hir doi'r frawddeg hon—'Dyfed ydi'i mistar nhw i gyd fel bardd a beirniad—'o ran hynny' Myrddin yn dodi'r cap ar y cwbl. Gair mawr ganddo hefyd fyddai 'Yr hen.' Rhannai y defnydd o hwn gan roddi rhan i barch a'r gweddill i amarch—*superlative* Myrddin am ragoriaeth fyddai 'hen ddyn godidog'; tra mai eitha ei ddiystyrwch drachefn geid yn y geiriau 'yr hen bethau yna.' Er enghraifft, 'hen bethau Bangor yna (yr ysgol newydd) yn hel eu dwylo,' &c.

Ni chymrai ran ym mhethau'r fro; er i'r holl wlad fod allan, ar ddydd gwyl, neu orhoian, y tu fewn i furiau ei fwthyn y ceid yr hen frawd; ac os deuai ar drafael i lan y byddai rhyw firi a dwndwr, ei hanes o yn ddifeth fyddai 'ffoi a mynd ffwrdd.' Ganddo ef nid cystal heddyw a doe; wfftiai chwareuon a phenchwibandod. 'Hy,' meddai, 'wydda nhw ddim byd rwan sy'n werth ei wybod.' Mynnai mai mewn cyfnod di-rin ac oes ddi-ras y trigem oll. Tybed ei fod ymhell o'i le? Credai mai pechod mawr y cyfnod ydoedd cribddeiliaeth ac ariangarwch arweinwyr crefydd,—yn ddios, bu i broffes uchel, a bywyd sal proffeswyr ei wneud yn fwy o feudwy, a pheri iddo deimlo fel y nafi dychweledig hwnnw gynt, wedi laru ar glaiarineb ei gyd-grefyddwyr, nes peri iddo gyfarch yr orsedd, 'O Lord, the more I sees of other people, the more I likes myself.'

Yn ei annedd cai hedd a hamdden i ymblesetu mewn ysgrifennu'r hanes hen, a threfnu'r ysgrifau prin hefo'r pâst a'r *press*. Talai ymweliad â gefail y gôf, ac â gweithdy'r saer; tebig yr arhosai yn y rhain beth o swyn ei gynfyd—swn yr engan yn

dwyn atgo o'i ddyddiau gofaint yntau gynt ; ond ni thariai yn hir, buan y ciliai yn ol i'w 'gilfach gêl,' i'r tŷ at y tân, ac yn wir i ddyn yn byw ei hunan, enaid y tŷ yw y tân ; mae yn rhaid wrth dân ac aelwyd cyn ceir hwyl ar 'sgrifennu'r gorffennol. Pan ddyry dyn ei draed ar y ffendar rhed ei feddyliau rywfodd yn reddfol at ddyddiau maboed, ac mor rwydd y daw doe yn ol Felly yntau, yng nghwmni ei dân chwiliai a chwalai bapurau fl gan dynnu o'r trwch emau a theleidion, anadliadau enaid y rhai a alwai ef yn 'hen ddynion godidog' —arwyr Cymru, ac o ystyried eu bod hwy yn wroniaid ffydd ein gorffennol, a Myrddin, yntau, yn feddyliwr mawr, rhaid y cafodd aml i orig yn ei 'unigedd a Duw yn agos.'

Coleddai syniadau Piwritanaidd o barth cadw'r Saboth. Daeth llenor o fri at ei ddrws nawn Sul, wedi cyclo tua 15 milltir mewn ymchwil am ryw hanes hen. Wedi dweyd ei neges ar y trothwy, ebai Myrddin witho yn eitha swta—''Does arna i ddim isio help i dorri'r Saboth, a fydda'i byth yn croesawu neb fydd yn crymowta'r Sul'; a chauwyd y drws—Myrddin o fewn, a'r *visitor* tu faes.

Ni chyffyrddai a diod na thybaco. 'Un hanner glasiad yfais i erioed,' meddai, 'a hwnnw yn y Glaslyn wrth gerdded o Feddgelert ar wres mawr, y fi a ——, glasiad rhyngom.' Ei reswm fyddai, 'Mae y Bod mawr wedi rhoi coiff rhy *noble* i ni i'w ddifwyno hefo rhyw arferion ffol.' Ie, y Bod mawr fyddai ei hoff ymadrodd am ei Greawdwr. Adroddai wrthyf iddo tua deugain mlynedd yn ol dreulio wythnos gyda Prys Morris—awdur 'Cantre'r Gwaelod,' yn Nantcaw Fawr, ffermdy yn un o gymoedd y Gader, a mi fyddai yr hen wraig yn arfer cadw'r ddyledswydd, ac yn cyfarch yr orsedd bob amser fel hyn : 'Y Bod Mawr, gweddus yw i ni,' &c.; 'ac o ran hynny,' ebai Myrddin, 'felly y byddaf innau yn deyd hefyd.' Nid gormod dweyd nad aeth yr hen frawd i'w wely nac allan ohono heb roi *bow* i'r Bod Mawr ar ei ddeulin fore a hwyr, ac yn wir efe fyddai yn galw arno gyntaf o neb yn Eifionydd, oherwydd â'i i glwydo gyda'r adar, a chodai gyda hwy drachefn—y boreua o bawb oedd efe. Tra yn son am hyn, cof genyf i mi adrodd wrtho sylw o eiddo rhywun wrth annerch myfyrwyr—'Fechgyn, os am osgoi bara gofidiau, bore godi am dani,' ac ebai yntau, 'Rhywun go hen ddywedodd fel yna, achos mae'r oes yma ar eu traed dan berfeddion, ac o ran hynny mae llawer iawn yn dlawd ac afiach yn ddiachos, ond eu bod nhw'n mynnu byw yn y pen *wrong* i'r diwrnod.'

Nodwedd fawr Myrddin ydoedd rhyw hoffter greddfol barai iddo ymnesu at bob math o onestrwydd ; gellid tybio nad oedd i feudwy ddim tynniad at blant, ond clywais ef yn dywedyd pan oeddym yn dwrdio plentyn, 'Chwarae teg iddo ; mae y rhein yn onest, a phe tae pawb fel y rhein mi fasa yma fyd go lew. 'Rydw i yn cofio un bach pedair oed yn cnocio'r drws acw, a phan agoris i'r drws, ebai'r un bach—Myrddin, ga i fynd i ddwyn gwsberins i'r ardd chi? a bu nerth ei ddiniweidrwydd yn ormod i mi,' ebai'r hen frawd, 'a mi ddeudis, 'Wel cei ngwas annwyl i, dwyna nhw i gyd os medri di.'

Wrth son am hen wraig gleddid yn yr ardal yn ddiweddar, sylwai, 'Hen wraig a thalent yn ei dwylo oedd hi—mi fedrai dwymo'r pobty hefo poethwal ; rhai felly oedd merched Lleyn i gyd er's talwm—rhai medrus i wneud pethau o ddim—rhywfodd—fedr merched Eifionydd yma ddim byw ar eu hadnoddau eu hunain fel merched Lleyn—mae nhw wedi eu difetha hefo moethau trên, ac wedi eu magu ar rhyw hen gario o'r stesion.'

Byddai yn ei afiaeth wrth son am Jones-Parry, Madryn—'Hen foneddion *noble*, *noble*, fyddai yn 'stusiaid er's talwm—rhai cefnog, ac felly 'doedd dim gwyro barn i blesio neb. Rhyw dro dygwyd gwraig ieuanc o'i flaen am ladrata esgidiau. Daeth i'r llys yn grynedig iawn a phlentyn yn ei chol, ac ebai'r hen foneddwr,

Faiut o blant sy gen ti? Triarddeg, Syr, ebai hithau. Y brenin mawr, does adra a paid byth dod yma eto, neu ti gneud y cyw bach yna sy'n dy gesail di yn lleidar run fath a tithau.' Dyna i chwi hen ystus *noble* ynte? meddai Myrddin, a sylwadau fel hyn barai i ddyn gredu fod Myrddin yn nes i'r Deyrnas nag y tybiai llawer.

Breintiwyd Myrddin â chwmni urddasolion dysg a gwybod, ond 'y noblia o'r *lot* o ddigon ydoedd Thomas Charles Edwards—yr oedd o yn wahanol i'r sgolars mawr yma yn gyffredin, am ei fod o yn gymaint o bregethwr ag oedd o sgolar; heblaw hynny, mi roedd o yn ddyn clen, a chlyfar, heb neb yn hafal iddo am chwerthin yn *hearty*, a fydd dda gen i mo'r hen bregethwrs yma fydd yn rhyw gogio chwerthin, dydi rheini byth yn rhai gonest iawn, ond mi fyddai'r *Principal* yn chwerthin yn iawn o ganol ei fol.' Er meddwl y byd o'r mab, eto cred Myrddin oedd, mal Dr. Edwards oedd y dyn gwerthfawroca welodd Cymru y ganrif o'r blaen. Mynnai nad oeddym eto wedi sylweddoli maint ein dyled iddo, a chredai nad oedd haul ei ddylanwad ar ein gwlad wedi cyrraedd ei anterth hyd yn hyn. Fel hyn y siaradai amdano: 'O ran hynny, mi 'roedd Dr. Edwards yn fwy na nhw i gyd hefo'i gilydd—'roedd yr hen ddoctor yn hufennu byd pob gwybod, ac yn ei gyflwyno drwy'r 'Traethodydd' i'r Cymro uniaith yn well nag y cafodd ef ei hunan; 'dydi y Cymry hyd eto wedi amgyffred mawredd Lewis Edwards fel cyfansoddwr a gwr o fedr ym myd barddoniaeth. Dr. Edwards a Gwallter Mechain oedd y ddau feirniad goreu welodd Cymru erioed.'

Hyderwn y cyhoeddir cyn hir ei gyfrol ar 'Enwogion Sir Gaernarfon'—mae ei chynnwys yn safonol, a brithir hi gan sylwadau gwreiddiol a phert y gwr mwyaf annibynol ei farn fu erioed o fewn y sir. Yr hen Fyrddin gonest a phlaen; fe bryderodd lawer am i'w ysgrifau fynd yn lân heb *spot* na *blot* i law'r Golygydd, a dydd mawr oedd dydd eu hymddangosiad, heb frych na gwall. Erbyn hyn, wele'r hen awdur yntau ei hunan wedi gweld dydd mawr yr 'ymddangos,' a chredwn iddo gael ei hun gerbron Golygydd mawr y cread—yn 'gyffelyb iddo, ac heb arno na brycheuyn na chrychni.'

JENKIN LLOYD JONES (1843–1918).

GAN CLWYDYDD.

[Parhad o rhifyn Medi.]

Yn yr un rhifyn hysbysid gyda gofid ei fod ef yng ngafael afiechyd peryglus (*angina pectoris*), ac wedi gorfod myn'd dan driniaeth lawfeddygol frysiog, a bod ei einioes yn y glorian. A phrynhawn y dydd Iau hwnnw, Medi 12, am 5 o'r gloch, daeth y diwedd iddo, neu yn hytrach ddechreuad newydd. Bu farw mewn brwydr: ni phallodd ei ddewrder, ni arafodd ei weithgarwch meddyliol, ni pheidiodd ei ofal tyner am gysur ac iechyd y rhai a weinyddent arno, ac yr oedd hyd yn oed ei ddoniolwch Celtaidd yn berwi ynddo hyd angau. Deffroai yn y nos, a sylwai ar dair mamaeth yn yr ystafell yn ei wylio, ac meddai yn sydyn,—Atgofiwch fi am y Tair Piler i Gymdeithas y sonia Ibsen

am danynt, sef Gwirionedd, Cyfiawnder, a Chariad. Pwy bynnag a ddeuai at ei wely i edrych am dano, efe a gyfarchai, yn ol ei hen arfer,—Wel, beth a *wyddoch* chwi heddyw? Ei unig gŵyn ydoedd,—Yr wyf yn bur flinedig, caled yw dringo'r gorifyny o hyd. Pan belydrai'r wawr sibrydai,—Yr wyf yn wastad yn llawen o doriad dydd. Nos Fercher gofynnodd am gael gwel'd y papur newydd; a pheniad un o'r colofnau yn hwnnw ydoedd, "Awstria yn Crefu am Gadoediad"; ac meddai yntau,—Rhaid iddi ddod i hyn, daw fy nydd innau eto; a bydd arnynt fy eisieu. A thrachefn,—Pe byddai i mi farw, fe wrandawant arnaf yn y lle yr wyf yn myned iddo. Yn rhagluniaethol iawn daeth pellebyr yn ei hysbysu fod yr awdurdodau yn Washington yn gollwng yn rhydd y rhifynnau caeth o'r *Unity*, ac wedyn cyrhaeddodd rhifyn i'w law. Mynnai gael ei ddarllen ei hun, a chywirai wallau'r cysodydd! Yna cafodd gwsg am rai oriau. Am bump y prynhawn sylwyd ar gyfnewidiad sydyn yn ei anadlu, agorodd ei lygaid, a gwenodd yn nefol ar ei anwyliaid oedd gylch ei wely; ac ar hynny aeth "ysbryd prydferthaf y byd at ei orchwylion mwy yr ochr draw." Torrwyd ar y distawrwydd gan waith ei briod yn adrodd ei eiriau mynych ef ei hun, "O Dad! diolchwn i Ti am gymryd Dy blentyn adref, ac wedi'r llafur a'r lludded am roddi ohonot hûn i'th anwylyd."

Fold him, O Father, in Thine arms!
And let him henceforth be
A messenger of love between
Our human hearts and Thee."

A bydded i'r heddwch sydd uwchlaw pob deall—yr heddwch a enillodd efe—fod yn eiddo'm ninnau yn Dy amser da a'th ffordd ddoeth Dy Hun."

"Pan fo olwynion bywyd yn fy sathru i lawr am y tro diweddaf, ni ofynnaf am warogaeth uwch, ni cheisiaf fynegiad cywirach o'r gwaith yr ymdrechais ei wneud, na'r deyrnged a roddodd hen negroes ben-wen i'r bachgen difarf ar y maes ŷd yng ngwres yr haf 1862. Yr adeg honno, os teilyngaf hynny, bydded i rywun a'm câr ddweyd,—Dyma filwr Linkum wedi gorffen ei yrfa, a'r cerbyd wedi rhedeg drosto,—un yr hwn fel ei arweinydd a geisiodd ddadwreiddio asgellyn ac a blanodd flodyn ymhobman y tyfai blodyn arno." Felly yr ysgrifenasai unwaith, a gwelir yn awr pa mor wir y daeth hyn i ben ynglyn ag ef. Dyna ddameg o amcan ei fywyd: codi ymaith bob chwyn niweidiol, a drain, a mieri, a phlannu blodau rhinwedd a moes yn eu lle gan droi felly gongl o'r anialwch yn ardd paradwys Duw. "Harddaf hefyd le fy nhraed"; harddodd le y cysegr (Esaia lx. 13), ond yn arbennig ceisiodd wneud maes y byd yn llawnach o flodau hardd, persawrus, ac o rawn maethlon. Bu yn fyw yn agos at galonnau dynion: ym mlynyddoedd ieuenctid, pan ddeuai llanw bywyd i mewn, adnabu ddynion, a chynhyddodd beunydd yn y wybodaeth bwysig o feddyliau eu calonnau; o'u hadwaen dysgodd eu caru, ac mewn cariad medrodd eu cynorthwyo. A dyna gyffes ffydd ei oes gyfan.

Rhoddes fri uchel ar bregethu, er y dichon na alwesid ei weinidogaeth yn un efengylaidd — o leiaf yng Ngwalia. Nid bob amser y cymerai destun ysgrythyrol i draethu arno. Er enghraifft, pan fu farw yr oedd ar ganol cyhoeddi yn yr *Unity* gyfres o bregethau ar Feistriaid Cerdd y byd. Achlysur uniongyrchol y gyfres hon ydoedd gosodiad Organ newydd yn y Sefydliad a lywyddai yn Chicago. Credai yn gryf yng ngwasanaeth cerddoriaeth gysegredig: teimlai yn dra rhwymedig yn fynych i unawdydd medrus a chrefyddol am godi meddylrych ei bregeth i wastad uwch ar ddiwedd yr oedfa; ystyriai broffwydi cynghanedd hefyd yn broffwydi crefydd gyffredinol. Cydnabyddai fod cyfansoddwyr cerddoriaeth yn perthyn i

urdd arweinwyr defosiwn y byd diweddar. Gobeithiai y byddai hanes bywyd y dynion enwog hyn yn cyffwrdd calon a bywyd darllenwyr, ac yn eu deffro i ymdeimlad newydd o'r prydferth ac i gyfoethogiad eu calon. A dyma drefn y gyfres :—

1. Yr Organ, ei Hanes a'i chenadwri.
2. Johann Sebastian Bach, 1685—1750.
3. George Frederick Handel, 1685—1759.
4. Wolfgang Amadeus Mozart, 1756—1791.
5. Ludwig van Beethoven, 1770—1827.
6. Felix Mendelssohn, 1809—1847.

Gweai i hanes y cewri hyn gwestiynau mawr bywyd yn yr oes hon, fel mai 'nid darlithiau mohonynt, eithr traethiadau ag iddynt gymhwysiadau ymarferol. Dengys yn y rhain wybodaeth neilltuol o eang, a medr homiletaidd i droi'r cyfan yn wasanaethgar i'r mater dan sylw ar y pryd. Ac nid atodiad i'r bregeth y mynnai ef i'r canu fod, eithr rhan hanfodol o undod ysbrydol y gwasanaeth. Cerddoriaeth yw plentyn ieuengaf celfyddyd, a rhodd ddiweddaraf Duw i ddyn ; ac yn y pum cerddor uchod canfu ef fesur newydd ar freninoldeb : iddo ef maent hwy yn frenhinol nid yn unig ym maes athrylith, eithr hefyd ym maes gweriniaeth.

Cyfres arall a welsom ganddo oedd un faith a llawn ar grefyddau y byd. Ac i gynulleidfa mor amrywiol o ran cenedl, a syniadau, ac arferion, ag oedd ganddo ef mewn lle fel Chicago, hawdd yw dychmygu pa mor briodol a gwerthfawr oedd y cyfryw gyfeiriad yn ei weinidogaeth. Medrai efe wel'd y da ymhob un o'r rhai yr arferid gynt eu galw yn "gau-grefyddau" ; ac nid oedd ddeilen ar ei dafod wrth fynegi eu rhinweddau, pa un bynnag ai gwreiddiol ai cymhathedig y gallai y rhinweddau hynny fod. Nid oedd arno ofn ymddangos yn annheyrngarol i Gristionogaeth wrth ganmol y lleill. Yn wir, cael yr ydym mai llydan-rwydd oedd ei nodwedd amlycaf. Galwai lili wrth ei henw lle bynnag y gwelai hi, ai yn y plas ynteu yn y bwthyn ; croesawai oleuni o bob pwynt ; chwythai pob awel gariad Duw arno ; eisteddai yn ewyllysgar wrth draed pob un athrawaidd. Diau y gellir myn'd yn llydan wrth fyn'd yn fâs, ac mewn mwy nag un ystyr ffordd yn arwain i ddistryw yw'r un lydan ; ond nid un o'r cyfryw rodiad yn bendifaddeu oedd Jenkin Lloyd Jones. Ac er na roddai y lle canolog i'r Iesu o Nazareth fel Gwaredwr pechadur a chymdeithas oddiwrth bechod, cydnabyddai Ei leferydd yn gysonach â'r eiddo Duw nag un dysgawdwr arall. A chyfranogai'n helaeth o ysbryd y Proffwyd mwyaf. Ar hyn y rhoddai yntau y pwys trymaf. Gyda mesur o ysgorn y cyfeiriai at Sefydlydd Cristionogaeth fel un a adnabyddid gan gynifer, ond a ddilynid gan gyn lleied. Ac "nid pob un ar sydd yn dywedyd Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i mewn i deyrnas nefoedd, ond yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys y Tad yr Hwn sydd yn y nefoedd." Cyfeiriai yntau gyda lledneisrwydd a pharch mawr at Dduw fel Tad. Hyd yn oed heb y Priod Fab a'i Gyfryngwriaeth, o ran proffes, ymddangosai yn ymwthio i ddirgelwch y berthynas fabaidd â Duw. Cymerid braidd bopeth a lefarai yn gyhoeddus i lawr mewn llaw-fer, ac yn ei plith ei weddïau. Byrion yw y rhai hynny fel rheol, ond cynhwysfawr, gostyngedig, ac addolgar ; edrych i fyny at y Tad mewn gobaith : er gwaethed yw'r byd teimlir ei fod yn rhy dda i gael ei lwyr golli. Gŵr llawn cydymdeimlad, a charedigrwydd natur, a fedrai weddïo fel y gwna efe. Dwg ddoluriau ei frodyr, cofia'r rhai rhwym fel pe yn rhwym gyda hwynt ; elai i'r sancteiddiolaf, i'r presenoldeb dwyfol, gydag achosion y wlad a'r byd yn argraffedig ar ei galon. Arferid cwblhau'r gwasanaeth yn ei eglwys trwy gydganu'r tri

phennill canlynol—a ganwyd hefyd yn ei angladd ef :—

"Father, let Thy blessing touch us and remain,
Guiding all our actions till we meet again ;

Father, keep us loving, brave and true and free,
Kind to every creature, all belong to Thee.

Unto all Thy children, here and everywhere,
Father give the comfort of Thy loving care."

Dyma esiampl o'i ddefosiynau :

"O Dad ! gwna ni yn llawen o fod yma, yn llawen mewn cymdeithas annwyl a'r gorffennol, yn llawen yn y rhwymau cryfion a'n ceidw wrth ein gorchwylion, yn llawen am y gorchwylion eu hunain. O Dydi a roddi Freichiau, cwyd ni uwchlaw hunanoldeb y sawl a geisiant esmwythyd. O Dad ! cymer ein dwylaw a chyffwrdd hwynt i ddefnyddioldeb. Cymer ein traed a gwisger hwy âg esgidiau ewyllysgarwch. Cymer ein calonnau a llanw hwynt â'th garedigrwydd. Cymer ein meddyliau a dysg hwynt yn ffordd gwirionedd. Cymer ein lleisiau a gwna hwynt i gordio a'r gynghanedd gyffredinol, fel y bo i ni mewn amser terfynol seinio rhai nodau o'r gân dragwyddol. Amen."

Gwelir oddiwrth ei erfyniau fod ei hyfrydwch uchaf mewn gwasanaeth, a'i fod yn barod i geisio dysgu gwersi caletaf ysgol gras. Yr Arglwydd Dduw a agorodd ei glust, ac yntau ni wrthwynebodd ac ni chiliodd yn ei ol. Ni osgôdd unrhyw galedwaith er ei gyfaddasu yn ddysgawdwr i'w oes. Clywai fel y dysgedig, ac am hynny llefarai hefyd gyda thafod un wedi ei ddysgu gan Dduw. Cadwai Ysgol Sabothol nodweddiadol iawn, nid un i ddysgu sillafu, darllen, ac egluro geiriau, yn unig, eithr un i drafod maes datguddiad hyd ei dalar bellaf. Traddodai ddarlithiau ar bynciau, a chyhoeddid hwy yn yr *Unity* yn wythnosol, ynghyda chwestiynau oddiar eu cynnwys i'w hateb gartref gan y dosbarth. Y mater cyffredinol oedd "Hanes Crefydd a'r Ymaferiad ohoni." Cymerai y cwrs cyfan saith mlynedd o amser ; a diau y gellid eu galw yn "saith mlynedd o amldra mawr" i'r rhai parod i'w ddilyn yn ffyddlon yn ei ymchwiliadau eang a manwl. Cyfeiriai ei ddisgyblion at ugeiniau o'r prif lyfrau sy'n awdurdodau ar wahanol agweddau y pwnc, sef hen grefyddau yr Aifft, Asyria, Babilon, India, China, Groeg, ac eraill. Cynhygiai efe ei ateb i ddyrysbwnc y Cydfyd allan o hanes, gwyddoniaeth, athroniaeth, celfyddyd, llenyddiaeth, ac yn bennaf o'i enaid a'i brofiad ei hun. Darllenid ei amlinelliad a'i ymdriniaeth werthfawr a symbyliadol gan dyrfa dros y gwledydd, yn ychwanegol at y rhai a wrandawsent arno yn eu traddodi ; ac wrth eu darllen teimlent megis dan gynhyrfiad awel adfywiol oddiar gefnfor llydan. Ei arwyddair oedd—

O fywyd glân i ddinas lân,
O gariad at gartref i gariad at wlad,
O gariad at wlad i gariad at ddynoliaeth,
O gariad at Dduw, ein Tad, i gariad at ddyn, ein brawd.

A'r olaf i gyd a ystyriai yn fwyaf anodd i'w ymarfer mewn gwirionedd. A pha un bynnag a lwyddodd i fyw yn ol ei safon ai peidio, da fod ganddo nod mor uchel a theilwng yn sefydlog o'i flaen.

Pan ddechreuodd yr ohebiaeth rhyngddo â mi dychmygais mai dyn ieuanc a ysgrifennai : aiddgarwch ac asbri yr ieuanc a deimlwn yn ei syniadau, a naws y bore oedd ar ei ysbryd. Mawr gan hynny oedd fy syndod pan ddywedodd fod un o'm llythyrau wedi digwydd cyrraedd i'w law ar ddydd pen ei flwydd, pan yn 73. Arwyddai ei lythyrau yn llawn, yn addurniadol, a digryn, a gellid

disgwyl iddo flynyddoedd yn rhagor o gyfle i weithio cyn i'w yrfa ddaearol ddod i'r pen. Ar ol ei farw, ailgyhoeddwyd pregeth o'i eiddo, a draddodasai ar ddydd olaf y flwyddyn 1882. Mater honno yw "Myned yn Hen," a'r testun Genesis 25 : 8, "Ac Abraham a drengodd, ac a fu farw mewn oed teg, yn hen ac yn gyflawn o ddyddiau; ac efe a gasglwyd at ei bobl." Dyfynnir O. W. Holmes, a ddywedodd y caiff pob un fraw pan glywo'i hun am y tro cyntaf yn cael ei ddarlunio o ddifrif fel hen wr. Ac eto dangosir y gall henaint fod yn dêg, a machlud haul yn fwy gogoneddus na'i godiad. Yr angylion hynaf yw yr ieuengaf. Trwy ofal priodol am y corff, a diwylliad parhaus ar yr enaid a'r ysbryd, yr ymgeidw dyn yn ieuanc fel angylion y nef. "A oes gennym ymennydd? Bydded i'r byd fanteisio arno yn awr. A feddwn ni gariad? Cyfrannwn ef yn haelionus heddyw. A berchenogwn ni arian? Buddsoddwn hwy yn y fath fodd fel y bo'n rhaid i'r sawl a ddeuant ar ein hol weithio'n well oblegid i ni fyw. Bydded ein blynyddoedd megis yn ysgaffaldiau, yn y rhai y codir twr anninistriol cymeriad, ac ar binacl pa un y caffom ninnau sefyll yn y diwedd, yn annibynnol wedyn ar ysgaffaldiau materol dyddiau, misoedd, a blynyddoedd. Ac yna nid aiff ein bywyd i lawr dros orwel du-dywyll y gorllewin, eithr efe a fydd fel seren y bore yn ymdoddi i ogoniant diwrnod newydd."

Adeiladodd Jenkin Lloyd Jones yn dda, a gosododd aur, arian, a meini gwerthfawr yn ei waith. Breuddwydiodd freuddwydion, meddyliodd feddyliau, a gwelodd weledigaethau heirdd, ond gweithiodd hefyd waith yr Hwn a'i hanfonodd tra'r ydoedd yn ddydd. Ac ni ddaeth nôs iddo: ni chadwyd ef i fyw yn ddi-ddefnydd; bu farw yn y tresi, a thynnu'r llwyth ymlaen a wnelai hyd awr ei ymddatodiad. Ei flwyddyn olaf oedd ei flwyddyn fwyaf dylanwadol. Er i rywrai anghytuno âg ef ar gwestiwn y rhyfel mawr, unllais yw'r dystiolaeth mai efe oedd dyn mwyaf Chicago yn ei oes.

REBECCA JONES (1796—1862).

Yn ystod rhai misoedd yn canlyn Haf, 1862, arferwn dalu ymweliad lled reolaidd a'r hen wraig hynod hon. Yr oedd ar y pryd yn "nesu at ymyl y dwr," ac nid hir y bu cyn croesi'r llinell derfyn. Ceir cofnod o'i hymadawiad yn YMOFYNYDD 1868, tud. 27. Gwraig William Jones oedd, hen filwr oedd wedi bod ar faes y gâd yn Waterloo, ac a gafodd ei glwyfo yno. Fe fu'n gorwedd ar y maes o ddydd Sul hyd ddydd Mawrth cyn ei symud. Yn ei ben yr anafwyd ef, ac yr oedd darn o arian ar y clwyf hyd iddo derfynu ei oes. Ei hoff ymddiddan ef oedd son am y frwydr fawr—clwyfo'r clwyfedigion, lladd y lladdedigion, &c.

Yr oedd Rebecca Jones yn wraig o gyneddfau cryfion, hwnt i'r cyffredin, ac yr oedd ganddi gof ardderchog. Chwi gofiwch yr hen bennill—

Tri pheth sy'n hardd ar Gymro,
Dysgu yn graff a ddysgo;
Cofio'i ddysg yn llwyr heb feth,
A dweyd y peth a fedro.

Ni fu gan y Parch. John Jones yn ystod 30 mlynedd ei weinidogaeth yr un gwrandawr gwell, na'r un yn gyffelyb iddi i gofio'r hyn a glywai.

Yn ystod y rhyfel diweddar gofynid yn fynych paham na fuasai Duw, os oedd Duw i gael, yn ei rwystro. Ie, —os oedd Duw i gael—

Pa le mae y môr? medd y pysgodyn;
Pa le mae yr awyr? medd yr aderyn;
Pa le mae Duw? medd y dyn.

Nid ydym yn synnu at anwybodaeth y pysgodyn a'r aderyn, ond dysgwyliem rywbeth gwell oddiwrth y dyn.

Pan ddarfu i'r tad doeth, a ewyllysiai roddi gwers i'w blentyn hau yr had yn y Gwanwyn, yn mhen ychydig ddyddiau aeth a'r plentyn allan i'r ardd, ac yn fuan fe sylwodd yr un bach fod yr had wedi tyfu ar lun llyth'rennau cyntaf ei enw ef—W.D.J. Synnodd yn naturiol, ond nid oedd dim a'i perswadiai i gredu eu bod wedi tyfu felly o ddamwain. Yr oedd yn sicr fod yna ryw berson wedi bod yn trefnu iddynt fod felly.

Ni fedrai Rebecca Jones ddarllen dim ond ychydig Gymraeg; ond meddai sylw craffus a chof gafaelus, ac yr oedd yn bleser gan bobl glywed ei sylwadau tarawiadol a gwreiddiol ar bynciau o ddyddordeb. Hoffai yn fawr olrhain doethineb y Crewr yn ngwaith ei law, a'l ofal a'i gariad ar hyd llinellau annysgwyliadwy i'r mwyafrif o blant dynion. Yr oedd, yn ddiameu, wedi gwrando ar lawer o bregethau, ac ymddangosai fel un oedd yn berffaith gyfarwydd a llawer o ymresymiadau Paley yn ei "*Natural Theology*." Sicr yw nas gallasai ei hunan eu darllen yn Paley; ond yr oeddynt gyda hi yn amlwg, ac yr oedd yn alluog i'w cario i diriogaethau newyddion. Dioddefodd gystudd hir a thrwm, ond fel un yn gweled yr anweledig.

Un tro, pan y bum ar ymweliad adroddodd i mi hanes

Y Weledigaeth Hynod

a adawodd y fath argraff ddofn ar fy meddwl fel y mae mor fyw heddyw a'r dydd yr adroddwyd ef gyntaf. Wedi i mi fyned i mewn ac eistedd dechreuodd adrodd i mi ei phrofiad. Yr oedd yn eistedd, fel arfer, yn ymyl y tân, pan y daeth hen gyfaill i mewn. Ni wyddai, meddai, yn gywir sefyllfa ei meddwl, pa un a oedd yn cysgu neu yn rhyw hanner cysgu, pa un ai breuddwyd neu weledigaeth, neu beth oedd; ond ymddangosai y cwbl iddi yn sylweddol iawn. Yr oedd y cyfaill wedi marw er ys blynyddau, ond wele ef yn awr iddi hi yn fyw, yn ol tystiolaeth pob gallu oedd ganddi i farnu. Wedi ei wahodd i'r gadair gerllaw, dechreuodd yr ymddiddan. Mewn ateb i'r gofyniad sut yr oedd hi, dywedodd canolig, canolig.

G.—Sut ydych chi'n teimlo yng nghylch y dyfodol?

A.—'Dyw e'n blino dim o hono i.

G.—A oes arnoch chi ddim ofan marw

A.—Nac oes arna i'n siwr ddim ofan marw.

G.—Beth, oes arnoch chi ddim ofan uffern?

A.—Nac oes arna i ddim tamed o ofan uffern.

G.—Oes arnoch chi whant mynd i'r nefoedd?

A.—Nac oes arna i, 'dwy'n blino dim yn ei gylch.

G.—Beth, menyw od ydych chi. Oes arnoch ddim ofan uffern na whant nefoedd. Wy'n deall dim o honoch. 'Newch chi 'sponio?

A.—Wel, fel hyn. 'Rwy'n credu yn y Tad Gore; wnaiff e ddim cam a fi. 'Rwy'n sicr o gael oddiar ei law ef yr hyn fydd ore er fy lles. Os nad w i'n ffit i fynd i'r nefoedd, ydw i ddim am fynd yno. Mi ga i fynd i'r lle w i'n ffit i fynd. Pe cawswn i fynd i'r nefoedd cyn mod i'n ffit i fynd i'r nefoedd, faswn i ddim yn hapus yno. Pan fydda i'n ffit i fynd i'r nefoedd, mi ga i fynd i'r nefoedd. Mae gennyf fi berffaith hyder yn y Tad Nefol y gwnaiff e o hyd yr hyn fydd er fy lles uwchaf. A phaham wedi'n yr âf fi i flino a grwgnach yn ei gylch.

Pwy nad allai edmygu ysbryd tawel ac ymostyngiad hyfryd yr hen wraig dduwiol hon? Onid ydym yn cael yma berffeithrwydd y teimlad

Cristnogol? Ni ddymunaf fi ddim yn well i mi fy hunan na meddiannu teimlad cyffelyb pan fyddo fy oriau olaf ar bwys.—R. J. J.

PRIODASAU.

Yng Ngellionen, dydd Iau, Awst 18, o flaen y Cofrestrydd, Mr. Noah L. Davies, a'r Parch. D. G. Rees, priodwyd Mr. David Jones, Maesycoed, Pontardawe, a Miss Margaret A. Thomas, Gellinudd.

MEDI 27, yn Llwynrhydowen, gan y Parchn. R. C. Jones, a T. Arthur Thomas, ynghyd a'r Cofrestrydd, y Parch. Thomas Oswald Williams, B.A., gweinidog Brondeifi a Chaeronen, â Miss Mary Anne Margaret Thomas (Daisy), merch y diweddar Mr. J. D. Thomas, M. R C. V. S., Buckingham House, Llanbedr. Hir oes a llwyddiant fo'n dilyn y briodas.

MARWGOFION.

AWST 22, Lewis Davies, annwyl briod Rachel Davies, Brynawel, Talgarreg, yn 71 oed. Gadawodd mewn galar briod, mab, merch, chwaer, ynghyd a llawer o berthynasau ereill, a chyfeillion. Yr oedd Lewis Davies yn fawr ei barch yn ardal Talgarreg, lle y cyfrifid ef yn ddyn didwyll, heddychol, a pharod ei gymwynas. Ni cheid ganddo ef i ddyweyd gair gwael am neb, ac hyd y gwyddom ni chafodd neb achos i ddyweyd dim oedd wael am dano yntau. Treuliodd flynyddoedd lawer yn gweithio yn Aberdar, a gwyddom oddiar dystiolaeth llawer a'i hadwaenent yn dda ei fod yn fawr ei barch yno hefyd. Yr oedd yn aelod gyda'r Annibynwyr. Undodiaid ac aelodau o eglwys Bwlchyfadfa yw ei briod a'i blant. Yn Siloah, Aberdar, a deallwn oddiwrth lythyr o gydymdeimlad ddaeth oddiwrth weinidog yr eglwys hono—y Parch. Silyn Evans—ei fod yn aelod ffyddlawn a defnyddiol. Yr oedd yn ddyn o gyfansoddiad cadarn, a mwynhaodd iechyd da hyd o fewn i ryw ddwy flynedd i'r terfyn, pryd y daeth adref heb fod yn rhy dda ei iechyd. Ymhen ychydig fisoedd dechreuodd waelu'n gyflymach, a gwaelu wnaeth hyd y bore uchod, pryd y ffarweliodd. Yn ystod ei gystudd cafodd bob gofal o du ei briod a'i ddau blentyn. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Bwlchyfadfa y dydd Gwener canlynol, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins

" Mae'n felus meddwl, eto 'nghyd
Cawn gwrddyd yn y nef."

MEDI 18, yn 91 mlwydd oed, Jane Lewis, Derry Cottage, ger Glanduar, Llanybyther. Bu yn byw dros y rhan fwyaf o'i bywyd mewn lle a elwid yn College, ar y ffordd a arweinia i Dolau-uchaf. Adnabyddid hi wrth yr enw "Shân College." Bu yn aelod o eglwys Alltyblacca, ond nid oedd wedi bod yn alluog i ddod

i'r gwasanaeth er's llawer o flynyddau. Yr oedd o gymeriad syml ac uniawn, ac yr oedd iddi air da gan bawb o'i chydnabod. Claddwyd yr Iau canlynol yn Alltyblacca. Gwasanaethwyd yn y tŷ ac yn y capel gan y Parch. L. Williams, ac ar lan y bedd gan y Parch. J. Davies. Nid oedd iddi berthynasau agos, ond bu y rhai a berthynent iddi yn ofalus ac yn barchus iawn o honi.

MANION AC HANESION.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Dyma restr o'r Ysgolion Sul sydd eisioes wedi cofio am yr "Adran." Saif eu cyfraniadau fel hyn—

	£	s.	c.
Trebanos	1	0	0
Capel-y-Groes ...	0	18	6
Rhydygwin	0	17	2
Bwlchyfadfa	0	11	0
Capel-y-Bryn ...	0	10	6
Brondeifi	0	10	0
Caeronnen	0	7	6
Alltyblaca	0	7	6
Capel-y-Cwm ...	0	2	6
Pantydefaid	1	5	0
Llandyssul	1	14	5

Gwelir fod rhai lleoedd heb danysgrifio hyd yn hyn, ond hyderaf y byddant cystal a danfon eu rhoddion i mi cyn diwedd y flwyddyn. Y swm mewn llaw yn awr ydyw £15 18s. 4c. —*D. Cledlyn Davies.*

ALLTYBLACCA, CAPEL Y BRYN, A CWM.—Gwasanaethwyd yn y Cyfarfod Diolchgarwch, yn y blaenaf, gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen; yn yr ail, gan y Parch. D. Conwil Evans, Rhydygwin; ac yn yr olaf gan y Parchn. T. Cenech Davies, Brynteg, a T. A. Thomas, Pantydefaid.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Pregethodd y Parch. T. A. Thomas, y bore, yng Ngellionen, a'r hwyr yn y Graig, i dyrfaoedd lluosog, Sul, Medi 11, fel math o ddathliad wedi glanhad y ddau gapel gan lu o wŷr a merched parod y lle. Ac y mae graen llafur didwyll ar y ddau adeilad. Llwyddasom i roddi lliw da ar y tŷ; ond faint o liw'r tŷ a roddwyd arnom ni? Casglwyd at y treuliau.——Yn y Graig, nos Iau, Medi 15, dan nawdd gweithwyr Graigole a Llwyndu, cynhaliwyd cyfarfod i'r perwyl o anrhegu a chyflwyno Anerchiad destlus i Mr. John W Bowen, Heol Newydd, Trebanos, yr hwn fu yn gyd-weithiwr, ac a ddaeth i safle uwch, nes iddo gyrhaedd y safle o *Under Manager.* Gwasanaethodd am tua wyth mlynedd, ac fel "arwydd fechan o barch," fel y dywed yr Anerchiad, cyd-unodd gweithwyr y ddwy lofa a enwyd i wneud hyn iddo am ei lafur diflino a theg yn eu plith, ac ar ei ymadawiad i lofa Llwynbedw. Cymerwyd rhan yn y cwrdd gan lu o dalentau o nod, a chawd hwyl a blas. Cawd anerchiadau gan y beirdd, &c., a siaradodd amryw yn effeithiol iawn. Cyfeiliwyd gan Mr. Isaac Emlyn Hopkin, a llywyddodd Mr. John Hopkin, Brynderw.

"IORWERTH GWILYM."—Y mae cant-ond-pump o flynyddoedd wedi mynd heibio er pan roddwyd Iorwerth Gwilym (a adnabyddid yn fwy cyffredin fel Iolo Morganwg) i orffwys yn dawel ym mynwent Treffleming. Er tloted ei amgylchiadau bydol, mawr ei barch yn ei ddydd oedd y saer maen athrylithgar hwnnw a rifai ymhlith ei gyfeillion a'i edmyg,

wyr rai o ddaliadau mor wahanol i'w gilydd â Thomas Paine, y rhyddfeddyliwr, a'r Doctor Burgess, Esgob Tyddewi.

Gwneir darpariaethau i ddathlu can-mlwyddiant amryw o fawrion Cymru yn y dyddiau presennol, ac ymddengys nad anghofiwyd mo'r prifardd Iolo ychwaith. Eithr nid â chân nac â chlod y dethlir côf cymwynaswr llên ein cenedl; na, ymddengys yn hytrach mai seigiau cilwg a difriaeth a ddarperir i'w rhoddi ar fyrddau "gwledd" ei ganmlwyddiant. Yn wir, y mae rhai o wŷr dysgedicaf ein gwlad ar eu goreu er's dwy neu dair blynedd yn ceisio ei wneud allan yn *dwyllwr* llenyddol, ac yn hynafiaethydd diegwyddor ac anonest. Y mae yng Nghymru o hyd ragfarn gyndyn yn erbyn y gredo rydd a ddaliai Iolo mewn diwinyddiaeth ac mewn *politics*, ac nid afresymol meddwl fod gan ddiffyg cydymdeimlad ag ysbryd yr Undodwr o Forgannwg rywbeth i wneud a'r ymosodiad presennol arno.

Gan fod y ddadl ynghylch dilysrwydd gwaith Iolo Morgannwg yn llenyddiaeth ein gwlad yn fater o bwys arbennig i Undodiaid, bwriadaf yn fy ysgrif nesaf roddi braslun o'r drafodaeth.—C.

STEPHEN HUGHES A'R DIAFOL.—Arferai'r Parch. Wm. Hughes, perthynas i Stephen Hughes adrodd y stori a ganlyn: Fe ddywedir yr arferai Stephen Hughes chwareu prancs a'r Diafol. Yr oedd ffermwr bron marw, a chan ei fod wedi treulio bywyd tra annuwiol, fe ddaeth y Diafol i'w nol. Safai Stephen Hughes rhyngddynt, a chadwodd ef i ffwrdd. Gwasgai'r Diafol ei hawl, ac yn y diwedd daethant i fath o gytundeb. Ni arosai'r Diafol yn hwy nag hyd y buasai'r ganwyll yn diffodd. Yr oedd tua modfedd yn aros. Pan gytunwyd ar yr oediad, cipiodd Stephen Hughes y ganwyll rhwng dwy ddalen o'r Beibl, a dywedodd, "'Nawr, Satan, dy waetha di"; yna'r Diafol yn teimlo ei fod wedi ei orchfygu a aeth i ffwrdd yn ynfyd gan natur ddrwg.—*C. Ref.*, 1830, tud. 182.

Er dodi drysni, a'i drin
Yn gynnar, yn mysg cennin,
Gwedi hyn er ei chynnydd
I syn faint, drysïan fydd.
Ni ddaw'n gryf ac ni thyfa
Drysïan yn dderwen dda.
—*Amnon.*

CYFFESODD John Wesley wrth William Law ei fod yn teimlo yn isel iawn ei yspryd ar brydiau, oblegid gweld mor ychydig ffrwyth oddiwrth ei lafur. "Gyfaill anwyl," ebe Law, "Yr ydych yn troi pethau allan o'u trefn priodol. Yr ydych i ddilyn y goleuni dwyfol i ba gyfeiriad bynnag yr arweinia chwi yn eich holl ymddygiad. Duw yn unig sydd yn rhoddi'r fendith. Yr wyf yn deisyf arnoch i edrych at eich gwaith eich hunan yn wastad, ac i fynd rhagoch yn siriol, a gellwch ddibynu y gofala Duw am ei ran ef. Heblaw, syr, gwelaf eich bod yn awyddus i ddychwelyd y byd; ond rhaid i chwi aros amser Duw ei hunan. Os, wedi'r cwbl, ydyw yn rhyngu bodd iddo ef eich defnyddio fel cymynwr coed, neu wehynwr dwfr, dylech ymostwng a bod yn ddiolchgar iddo ef am eich anrhydeddu mor bell." Credwn fod geiriau William Law yn eiriau a ddylent roi calon i'r gweinidog sydd yn argyhoeddedig o wirionedd ei syniadau ac yn awyddus i'w gwasgar. —*B. C. D.*

DEWIS YR EMYN.—Pan glywais yn ddiweddar am weinidog fu unwaith yn ifanc, ar adeg briodol i rew ac eira, yn rhoi emyn allan yn dechreu,

"Summer suns are glowing
Over land and sea,
Happy light is flowing
Bountiful and free."

Wel, mi synnais gyda syndod mawr. Ym mha le yr oedd meddwl y pregethwr am briodoldeb y dewisiad? Gallai fod yn briodol i Fehefin a Gorffennaf, ond yn sicr nid i Dachwedd a Rhagfyr. Wrth feddwl am

hynyna, nid wyf yn synnu cymaint yn awr pan gofiaf am wr ifanc, ar noson o'r wythnos, yn rhoi allan emyn i ddechreu'r cyfarfod,

" Dan dy fendith wrth ymadael
Y dymunem, Arglwydd, fod ;
Llanw ein calon a dy gariad
A'n geneuau a dy glod, &c."

Mae'r emyn yn dda, ac yn darawiadol, ond ei ddefnyddio ar yr adeg iawn. Mae gormod o weithio ar antur, ac yn ddi-feddwl weithiau, hyd yn oed yn yr Eglwys a'r Capel. Mae'r pwnc wedi arwain fy meddwl yn ol at John Jones. Pan oedd John Jones yn y Coleg, yr oedd yn arferiad i ddechreu gwaith y dydd—fel y mae, fe allai, hyd heddyw—gyda darllen a gweddi a chanu emyn. Un bore, syrthiodd y ddyledswydd i ran John Jones, a'r emyn a roddodd allan oedd un o eiddo Dr. Doddridge :

" Mark the soft falling snow,
And the diffusive rain !
To heaven, from which it falls,
It turns not back again ;
But waters earth through every pore,
And calls forth all its secret store."

Ac fe'i darllenodd gyda'r fath effaith nes peri i'r holl bresenolion, yn athrawon a myfyrwyr, godi eu pennau a synnu wrth weld yr eira, yn annisgwyliadwy, yn disgyn yn gawod drom.

YMSON FFYDD YN Y FAGDDU.

Mae goleuni na diffodda
Pan fachluda haul yr hwyr,
Mae cerddoriaeth na ddistawa
Gwedi dêl mudanrwydd llwyr.

Mae pelydrau Duw'n tywynu
Ar ymylon chwerwedd oes.
Baner cariad sydd yn chwifio
Ar uchelion eithaf loes.

Onid gras yw gwraidd y cread ?
Onid Tad y byd yw Duw ?
Creu mae'r awrhon yn holl ingoedd
Profiad bydoedd bethau gwiw.

Dall y llygaid na chanfyddant
Fudiad Duw yn ngwres y dydd.
Crefydd yw gweld rhamant ddwyfol
Y cyffredin bethau sydd.

Yn ymdrechion y ddynoliaeth,
'Nyheadau a dawn yr awr,
Yspryd Duw'n ei oruchafiaeth
Sy'n dyrchafu'r nef a'r llawr.

Adref, adref daw'r gwerthiantau,
'Nol at Dduw ei Yspryd ddaw ;
Nid yn nghau mae ei amrantau,
Nid yn llesg y mae ei law.

Enaid, gwel trwy'r gwyll addewid,
Hanfod pob addewid fu ;
Cysgod yw'r peth gorau welwyd
O'r hyn yn dragwyddol sy'.

T. E. D., Cefncoed.

MEDDWL DYN.

Chwilgar fod, uchelgryf ei edyn—
braidd
Gall mellt brysg ei ddilyn ;
Dawn yr enaid, neu ronyn
O ddelw Duw, yw meddwl dyn.

Ifor Cwm Gwys, 1813–1866.

EDIFEIRWCH.

Undodwr dan faich gwendidau—
Blinedig fy nghamrau ; [ydwyf,
Fy Nuw, pan wy'n dwyn dy iau,
Dinawdd wyf heb dy wenau.

DEWI GWENOG.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

Just Published by THE LINDSEY PRESS.

The New Testament & Modern Life

By S. H. MELLONE, M.A., D.Sc.

Cr. 8vo. 280 p.p. Cloth, **6/-** net.

Prof. JAMES MOFFAT, M.A., D.Litt., writing in the *British Weekly*, says:—"It is a genuine pleasure to read Dr. S. H. Mellone's new book . . . he applies critical judgment to the records, and combines with it a fine moral judgment, which enables him to present positive results. . . . I call it without hesitation a good book, not because it always convinces, but because its method is so trustworthy, and its outlook so sane."

The *Times Literary Supplement* speaks of Dr. Mellone's book as "an acute and scholarly study," and the *Glasgow Herald* describes it as "both a live and a learned book."

In this book the author's endeavour has been to indicate as concisely and as clearly as possible the ethical import of the most significant parts of the New Testament, and the directions in which the resulting principles bear upon modern life and civilisation.

The Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

Fruit Trees, Roses and Shrubs.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £19 5s.; with Music, £21 7s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Six Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq., K.C., Mrs. H. Foster Morley.

LONDON JOINT CITY AND MIDLAND BANK LIMITED

CHAIRMAN:

The Right Hon. R. McKenna

JOINT MANAGING DIRECTORS:

S. B. Murray F. Hyde E. W. Woolley

Subscribed Capital	£38,116,815
Paid-up Capital	10,860,565
Reserve Fund	10,860,565
Deposits *(June 30th, 1921)* ..	371,322,381

Llandyssul Office: 9, Lincoln Street

Manager: T. M. JONES

Over 1550 Offices in England and Wales

Head Office:

5, Threadneedle Street, London, E.C.2